

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr
A40/A449 (Man i'r gorllewin o
Langrwyne, Powys i Raglan, Sir
Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin
rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2018

The A40/A449 Trunk Roads (West
of Glangrwyne, Powys to Raglan,
Monmouthshire & Raglan to the
Wales/England Border,
Monmouthshire) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restrictions)
Order 2018

Gwnaed 20 Mawrth 2018

Made 20 March 2018

Yn dod i rym 26 Mawrth 2018

Coming into force 26 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40/A449 Casnewydd i Gaerwrangon a Chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the relevant length of the A40/A449 Newport to Worcester Trunk Road and the A40 Raglan to Llandoverly Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 26 Mawrth 2018.

1. The title of this Order is the A40/A449 Trunk Roads (West of Glangrwyne, Powys to Raglan, Monmouthshire & Raglan to the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 26 March 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26 Mawrth 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd/cefnffyrdd” (“*the trunk road(s)*”) yw Cefnffordd yr A40/A449 Casnewydd i Gaerwranon a Chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 5.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3, 5 a 6.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road(s)” (“*y gefnffordd/cefnffyrdd*”) means the A40/A449 Newport to Worcester Trunk Road and the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 26 March 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1.

4. No person may, during the works period, ride, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 5.

5. No person may, during the works period, ride, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 3, 5 and 6.

6. No person may, during the works period, ride, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 4, 5 and 6.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted

fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2, 3, 4, 5 a 6 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwyso

9.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

20 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 4, 5 and 6 during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

Suspension

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2, 3, 4, 5 and 6 are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

Application

9.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

10. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

20 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o'r ffordd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The entire lengths of the A449/A40 northbound exit and entry slip roads at Raglan Interchange.

The entire length of the A449/A40 southbound exit slip road at Raglan Interchange.

The entire length of the lay-by whose centre-point is 240 metres west of Penpergwm over-bridge.

The entire length of the lay-by whose centre-point is 330 metres east of Hardwick Lane underpass.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd wasanaethu Dobson's Farm.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

ATODLEN 4
Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

ATODLEN 5
Terfyn Cyflymder 50 mya, neu 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ATODLEN 6
Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

The entire length of the lay-by whose centre-point is 470 metres east of Dobson's Farm accommodation underpass.

SCHEDULE 2
Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the A40 trunk road that extends from the centre-point of Bannut over-bridge to a point 105 metres south-west of the southern portal of the Gibraltar Tunnels.

The length of the A40 trunk road that extends from a point 271 metres north-east of the centre-point of Dixton Roundabout to the centre-point of Ganarew service bridge.

SCHEDULE 3
Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the A40 trunk road that extends from a point 219 metres west of its junction with the access road to Glangrwyney Court to a point 134 metres west of its junction with Red Barn Road.

SCHEDULE 4
Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from a point 219 metres west of its junction with the access road to Glangrwyney Court to a point 135 metres north-west of the centre-point of Hardwick Roundabout.

SCHEDULE 5
Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from a point 384 metres north-west of the centre-point of Dobson's Farm underpass to the centre-point of the A40/A449 over-bridge at Raglan Interchange.

The entire length of the A40/A449 southbound exit slip road at Raglan Interchange.

SCHEDULE 6
Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from the centre-point of Bannut over-bridge to the centre-point of Ganarew service bridge.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A40/A449
(MAN I'R GORLLEWIN O LANGRWYNE,
POWYS I RAGLAN, SIR FYNWY AC O
RAGLAN HYD AT Y FFIN RHWNG CYMRU A
LLOEGR, SIR FYNWY) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A40/A449, neu gerllaw iddynt, o'r gorllewin i Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy ac o Raglan hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr (man i'r de o Ganarew), Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A40/A449 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd. Trefnir yr adegau pan fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau er mwyn peidio ag effeithio ar lwybrau gwyrho a fydd yn defnyddio ffyrdd ymuno ac ymadael eraill yng Nghyfnawidfa Rhaglan.
- ii. Gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darnau o'r A40 a bennir yn Atodlen 2.
- iii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o'r A40 a bennir yn Atodlen 3.
- iv. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r A40 a bennir yn Atodlen 4.
- v. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 50 mya neu 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o'r A40/A449 a bennir yn Atodlen 5 yn ystod gwaith confoi.
- vi. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r A40 a bennir yn Atodlen 6 yn ystod gwaith confoi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 26 Mawrth 2018 ac yn weithredol dros nos (20:00 - 06:00 o'r gloch) hyd 10 Ebrill 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru

**THE A40/A449 TRUNK ROADS (WEST OF
GLANGRWYNEY, POWYS TO RAGLAN,
MONMOUTHSHIRE & RAGLAN TO THE
WALES/ENGLAND BORDER,
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER
2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40/A449 trunk roads from west of Glangrwyney, Powys to Raglan, Monmouthshire and from Raglan to the Wales/England border (south of Ganarew), Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A40/A449 described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule. The slip road closures will be phased to ensure diversion routes using other slip roads at Raglan Interchange are not affected.
- ii. Impose a 50 mph speed limit on the lengths of the A40 specified in Schedule 2.
- iii. Impose a 40 mph speed limit on the length of the A40 specified in Schedule 3.
- iv. Impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A40 specified in Schedule 4.
- v. Impose either a 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy working on the lengths of the A40/A449 specified in Schedule 5.
- vi. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy working on the length of the A40 specified in Schedule 6.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 26 March 2018 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 10 April 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales

(Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Cau Ffyrdd Ymuno ac Ymadael

1. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n gadael yr A449 yw mynd ar yr A40 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Dixon a dychwelyd tua'r de-orllewin i ymadael yng Nghyfnewidfa Rhaglan.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n dymuno ymuno â'r A40 yw mynd ar gefnffordd yr A449 tua'r de i Gyfnewidfa Coldra er mwyn dychwelyd tua'r gogledd.

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y llwybr arall yw mynd ar yr A449 tua'r de i Gylchfan y Coldra a dychwelyd tua'r gogledd er mwyn ymadael yng Nghyfnewidfa Rhaglan.

Cau Cilfannau

3. Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

4. Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

5. Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd wasanaethu Dobson's Farm.

ATODLEN 2 Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau

(Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

Slip Road Closure

1. The entire lengths of the A449/A40 northbound exit and entry slip roads at Raglan Interchange.

The alternative route for vehicles leaving the A449 is via the north-eastbound A40 to Dixon Roundabout and return south-westbound to exit at Raglan Interchange.

The alternative route for vehicles wishing to join the A40 is via the southbound A449 trunk to Coldra Interchange to return northbound.

2. The entire length of the A449/A40 southbound exit slip road at Raglan Interchange.

The alternative route is via the southbound A449 to Coldra Interchange to return northbound to exit at Raglan Interchange.

Lay-by Closures

3. The entire length of the lay-by whose centre-point is 240 metres west of Penpergwm over-bridge.

4. The entire length of the lay-by whose centre-point is 330 metres east of Hardwick Lane underpass.

5. The entire length of the lay-by whose centre-point is 470 metres east of Dobson's Farm accommodation underpass.

SCHEDULE 2 Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the A40 trunk road that extends from the centre-point of Bannut over-bridge to a point 105

i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

ATODLEN 4

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

ATODLEN 5

Terfyn Cyflymder 50 mya, neu 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ATODLEN 6

Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

metres south-west of the southern portal of the Gibraltar Tunnels.

The length of the A40 trunk road that extends from a point 271 metres north-east of the centre-point of Dixton Roundabout to the centre-point of Ganarew service bridge.

SCHEDULE 3

Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the A40 trunk road that extends from a point 219 metres west of its junction with the access road to Glangrwyney Court to a point 134 metres west of its junction with Red Barn Road.

SCHEDULE 4

Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from a point 219 metres west of its junction with the access road to Glangrwyney Court to a point 135 metres north-west of the centre-point of Hardwick Roundabout.

SCHEDULE 5

Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from a point 384 metres north-west of the centre-point of Dobson's Farm underpass to the centre-point of the A40/A449 over-bridge at Raglan Interchange.

The entire length of the A40/A449 southbound exit slip road at Raglan Interchange.

SCHEDULE 6

Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the A40 trunk road that extends from the centre-point of Bannut over-bridge to the centre-point of Ganarew service bridge.